# Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd

Yr ASB sy'n datblygu'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol (NEPs) ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd. Mae'r rhain yn cynorthwyo awdurdodau lleol a busnesau wrth gynnal safonau a diogelu iechyd y cyhoedd.

Caiff y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol eu datblygu'n flynyddol trwy ymgynghori â'r canlynol:

- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol
- Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS)
- Penaethiaid Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol
- Aelodau'r Panel Amaeth Cenedlaethol (NAP)
- Aelodau Panel Cenedlaethol Bwyd Anifeiliaid mewn Porthladdoedd (NAFPP)

## Amcanion

Mae ymgorffori'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol mewn rhaglen o reolaethau swyddogol yn annog gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid i gydymffurfio trwy gamau gorfodi.

Amcanion y blaenoriaethau yw:

- ysgogi dull cynnal rheolaethau swyddogol sydd wedi'i seilio ar gudd-wybodaeth (intelligence), gan ganolbwyntio adnoddau ar fusnesau risg uwch a'r rheiny nad ydynt yn cydymffurfio, a chynyddu'r ffocws ar ganlyniadau
- sicrhau chwarae teg ar gyfer busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n onest a dyfal, sef rhywbeth sydd er budd y diwydiant yn ei gyfanrwydd
- lleihau beichiau diangen ar fusnesau trwy ganolbwyntio gweithgarwch awdurdodau lleol ar feysydd y cytunir eu bod yn peri'r risg fwyaf i iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid
- llunio dull ymyrryd hyblyg sydd wedi'i seilio ar gudd-wybodaeth, gan gynyddu'r ffocws ar ganlyniadau
- gwireddu ein nod strategol, sef 'Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo' a gwella ansawdd a chysondeb rheolaethau swyddogol

Mae deddfwriaeth a chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn eu cynlluniau blynyddol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid ar gael yn y dogfennau Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol.

WORD
Gweld Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr 2024-25 (1).docx as Word(Open in a new window) (182.71 KB)

## Northern Ireland

PDF
Gweld National Enforcement Priorities for Northern Ireland 2023-24 as PDF(Open in a new window) (207.07 KB)